Cyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes Gorau i Gymru

Cwestiwn 16. Sut mae busnesau, llywodraeth leol a'r trydydd sector yng Nghymru yn gallu cefnogi DMO i gasglu, cludo a phrosesu cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio?

Casglu – Gallai'r sector gwirfoddol gynorthwyo â'r gwaith o gasglu poteli a chynhwyswyr sy'n gymwys o dan y cynllun dychwelyd.

Mae nifer o grwpiau gwirfoddoli lleol eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel casglu sbwriel yn eu cymunedau. Gallai'r cynllun gynnig mwy o gymhelliad i'r gweithgareddau hyn pe bai grwpiau gwirfoddoli lleol yn gallu cael budd o'r pethau a ddychwelir, a'u bod yn helpu i gyllido eu gwaith yn y gymuned.

Yn aml, mae gwirfoddolwyr hefyd yn cynnal gwasanaethau lleol fel canolfannau cymunedol, caffis a siopau a all fod yn lleoliadau addas ar gyfer pwyntiau dychwelyd, os bydd yr holl gostau cysylltiedig yn cael eu had-dalu.

Efallai y gall rhai mudiadau gwirfoddol â safleoedd, fel canolfannau cymunedol neu siopau elusen a mudiadau â mynediad at warysau, helpu gyda storio. Ni ddylid disgwyl iddynt wneud hyn am ddim, fodd bynnag, a dylid cyllidebu ar gyfer ffioedd ymdrin, gan gynnwys costau rheoli gwirfoddolwyr.

Cludo – gallai rhai mudiadau gwirfoddol gludo poteli wedi'u dychwelyd. Dylai'r llywodraeth roi blaenoriaeth i estyn allan i fudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol a rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan, a'u helpu i ddatblygu a chwarae rhan lawn yn y cynllun newydd.

Prosesu- Mae lle i fentrau cymdeithasol gymryd rhan, ond mae'n hanfodol fod unrhyw gontractau cyhoeddus a gynigir yn talu'r gwir gost o

ddarparu'r gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnig mwy o fudd cymdeithasol oherwydd byddai'r canolfannau prosesu yn rhedeg ar sail nid-er-elw.

19. Sut mae Llywodraeth Cymru a Sefydliad Rheoli Ernes yn gallu sicrhau'r manteision mwyaf i Gymru o CDE ar gyfer cynwysyddion diodydd untro a chynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio?

Cred CGGC bod gan y Cynllun Dychwelyd Ernes y potensial i gefnogi nifer o nodau llesiant Cymru. Er mwyn cael cymaint â phosibl o effaith, dylai ernesau na hawliwyd gael eu rhoi'n awtomatig i achosion elusennol, a dylai unigolion sy'n dychwelyd poteli gael opsiwn rhoi hawdd yn lle gorfod derbyn yr ernes yn ôl iddyn nhw'u hunain. Bydd yr union fformat ar gyfer hwn yn dibynnu ar y math o gynllun dychwelyd a fydd yn cael ei roi ar waith, ond dylai fod yn hawdd i ddefnyddwyr ei ddefnyddio a chynnig hyblygrwydd o ran sut y defnyddir ernesau. Byddem yn awgrymu opsiwn un botwm digidol sy'n caniatáu iddynt roi'n hawdd.

Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i ddefnyddio cyn nawr wrth godi tâl am fagiau untro, sy'n gofyn i fanwerthwyr roi'r elw i achosion elusennol ers cyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cyn hyn, roedd y cynllun yn wirfoddol. Byddem yn cefnogi ymagwedd debyg ar gyfer ernesau na hawlir ac ernesau a roddir er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cyflawni cymaint â phosibl o fudd. Byddai hyn yn creu ffynhonnell newydd o gyllid a allai gynyddu'r effaith bositif, nid yn unig drwy wella'r cyfraddau ailgylchu ond hefyd drwy gefnogi gwaith amrywiaeth eang o fudiadau gwirfoddol.

Er bod y cynllun bagiau untro ychydig yn wahanol, mae'n dangos buddion gwneud hi'n orfodol i ernesau na hawlir ac ernesau a roddir fynd i'r sector gwirfoddol. Er enghraifft, gwnaeth un manwerthwr stryd fawr roi mwy na £31,000 i elusennau yng Nghymru yn ystod blwyddyn ariannol 2024–2025.

Opsiwn da arall yw defnyddio'r cyllid a gynhyrchir i hwyluso benthyca cymdeithasol. Yn 2018, gwnaeth ASDA roi £532 mil i CGGC o'r hyn a godwyd ganddynt am fagiau untro. Ers hyn, rydym wedi'i ddefnyddio i greu £787 mil o fenthyciadau ar gyfer buddsoddiad cymdeithasol. Gwnaeth y model a ddefnyddiwyd gennym ganiatáu i'r cyllid gael ei ailgylchu dro ar ôl tro, gan gynyddu'r effaith gymdeithasol positif. Gwnaeth hyn sefydlu

cynsail clir i sut gall codi tâl er mwyn lleihau gwastraff plastig gael effaith lawer mwy pan gaiff ei fuddsoddi mewn achosion cymdeithasol.

Mae'r cynllun bag untro presennol yn caniatáu i fanwerthwyr ddewis eu partneriaid elusennol eu hunain. Gallai'r cynllun dychwelyd poteli weithredu'n debyg, gan alluogi unigolion i ddewis eu hoff elusennau wrth ddychwelyd poteli. Neu, gallai'r Mudiad Rheoli Ernesau arfaethedig gydweithio â seilwaith sector gwirfoddol cyfredol, fel CGGC, i weinyddu a dosbarthu'r cyllid, gan sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar draws y cymunedau.

Mae perfformiad y Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cyflwyno model profedig sy'n lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ac yn cynhyrchu cyllid sy'n fuddiol i'r gymuned. Yn ystod ei gylchau cyllido cynnar, dyfarnodd dros £4.6 miliwn i brosiectau lleol, a sicrhau £9 miliwn arall mewn cyllid cyfatebol a chyflawni buddion ariannol gwerth oddeutu £37 miliwn. Gallai ymwreiddio elfen debyg o gyllid cymunedol o fewn y Cynllun Dychwelyd Ernes ailadrodd y canlyniadau gwerth uchel hyn ledled Cymru. Gallai'r ymagwedd hon gefnogi achosion da mewn cymunedau lleol a bod â'r potensial i greu swyddi o fewn y sector gwirfoddol. Byddai'n cyfrannu at gyflawni'r nod o gael Cymru fwy Ffyniannus, Gwydn, Cyfartal ac Iachach a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.